**Cyf: EUR-01-01(min)**

**Pwyllgor Materion Ewropeaidd**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 31 Ionawr 2001 |
| **Amser:** | 9.00 am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Presennol:Aelodau** | |
| Rhodri Morgan (Cadeirydd) | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol: Sir Drefaldwyn |
| Nicholas Bourne | Ceidwadwyr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| Val Feld | Llafur: Dwyrain Abertawe |
| John Griffiths | Llafur: Dwyrain Casnewydd |

| | |
|---|---|
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr: Canol De Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Phil Williams | Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |
| Y Cynghorydd | Jon Huish Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau |
| Catherine Eva | Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| Dr Rose D'Sa | ECOSOC |
| Jos Gallagher | Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| Richard Essex | Ymgynghorydd ar faterion Ewropeaidd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Hugh Rawlings | Pennaeth, Yr Is-adran Materion Ewropeaidd |

| | |
|---|---|
| Charles Willie | Pennaeth, Uned Polisi Cydraddoldeb |
| Des Clifford | Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel |
| Marie Knox | Clerc Dros Dro y Pwyllgor |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc Dros Dro y Pwyllgor |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: Aelod o'r pwyllgor Ieuan Wyn Jones; Brian Smith, Pwyllgor y Rhanbarthau; George Wright, ECOSOC; a Jonathan Evans, Eluned Morgan, Glenys Kinnock, Eurig Wyn a Jill Evans, ASE.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

**Papur:** EUR-01-01(p.1)

1.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor bod y prif eitem yn ei adroddiad yn ymwneud â'r Uwchgynhadledd Ewropeaidd a gynhaliwyd yn Nice rhwng 6 a 10 Rhagfyr. Canolbwyntiodd yr uwchgynhadledd ar baratoadau ar gyfer ehangu yr Undeb Ewropeaidd. Un canlyniad pwysig oedd mai dim ond un Comisiynydd Ewropeaidd yr un o 1 Ionawr 2005 ymlaen y caniateir i aelod-wladwriaethau mawr, ond byddai gan eu pleidlais fwy o bwysau yng Nghyngor y Gweinidogion er mwyn gwneud yn iawn am hyn.

1.2 Penderfynwyd hefyd i gynnal IGC arall yn 2004. Y mater i'w drafod yr adeg honno a fyddai'n debygol o fod fwyaf o bwys i Gymru fyddai'r "Siarter Cymwysterau" a anelir at amlinellu grymoedd yr haen ranbarthol, yr haen genedlaethol a'r haen Ewropeaidd. Barn yr Almaenwyr oedd y byddai'n synhwyrol cyfundrefnu pwerau'r haenau llywodraeth gwahanol cyn ehangu. Mae'r Almaen yn ei alw yn Gyfansoddiad Ewropeaidd. Siarter Cymwysterau oedd orau gan y Prydeinwyr. Roeddem wedi arfer gyda chyfansoddiad anysgrifenedig ac roedd gan yr Almaenwyr gyfansoddiad ffurfiol. Dywedodd Prif Weinidog Cymru bod y Llywodraethau Tir yn ceisio cael rhyw fath o ddiogelwch cyfansoddiadol wedi'i warantu yn erbyn Aelod-Wladwriaethau a oedd yn ceisio gwneud yn iawn am y diffyg grym ar lefel Ewropeaidd. Os mai dyma fyddai un o'r pynciau allweddol yn y Gynhadledd Rhyng-Lywodraethol nesaf yn 2004, byddai'n asio ag adolygiad o bwerau'r Cynulliad. Dywedodd Catherine Eva y byddai Romano Prodi, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, yn cynhyrchu Papur Gwyn ar Reolaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Byddai gwrandawiad agored ar y papur ym Mrwsel ar 13 a 14 Mawrth. Dywedodd Jos Gallacher y byddai'r Papur Gwyn yn debygol o osod y fframwaith ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol yn y Gynhadledd Rhyng-Lywodraethol. Roedd angen i Gymru ffurfio barn ar fyrder ar ddatganoli gan bod y gwledydd ffederal yn awyddus iawn i gynhyrchu cytundeb Ewropeaidd yn nodi contractau a rhydweithio rhwng haenau o lywodraeth.

1.3 Adroddodd y Cadeirydd mai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd Gweinidog cyntaf y Cynulliad i fynychu Cyngor Iechyd ar 14 Rhagfyr, gan gyfrannu ar ran y DU i drafodaeth ar faetheg a pholisi iechyd. Roedd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd wedi cyfarfod â nifer o gynrychiolwyr y Comisiwn ac Aelodau Seneddol Ewropeaidd ym Mrwsel ar 5 a 6 Rhagfyr er mwyn archwilio'r cyfleoedd ar gyfer gwell cymhellion i fusnesau Cymru yn ardal Amcan 1 Cymru. Roedd y Gweinidog dros yr Amgylchedd ym Mrwsel ddiwedd mis Rhagfyr er mwyn mynychu Cyngor yr Amgylchedd ond roedd newidiadau hwyr i'r agenda yn golygu ei bod wedi cyfarfod â swyddogion y Comisiwn a Chanolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) i

drafod ystod o faterion amgylchedd a thrafnidiaeth. Cyfarfu'r Trefnydd ag uwch swyddogion y Comisiwn ar 8 Rhagfyr er mwyn trafod Dwyrain Ewrop. Roedd Tom Middlehurst wedi cymryd lle'r cadeirydd fel Cyfarwyddwr Bwrdd WEC ac roedd wedi mynychu cyfarfod o'r bwrdd ym mis Rhagfyr.

1.4 Roedd John Griffiths wedi cymryd rhan mewn cyfarfod llawn o Bwyllgor y Rhanbarthau (CoR) ym mis Rhagfyr. Roedd Elin Jones wedi mynychu Comisiwn Amaeth y CoR. Adroddodd John Griffiths mai'r prif farn a luniwyd gan y cyfarfod llawn oedd ar y Siarter Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol. Byddai diddordeb ganddo weld sut y byddai'r CoR yn datblygu gan nad oedd wedi torri cwys arwyddocáol iddo'i hun eto. Roedd yn cynnwys pobl a oedd yn agosach i lefel llawr gwlad nag ASE ac felly roedd ganddo syniad gwell am sut yr oedd pobl yn teimlo ar faterion. Gallai ddatblygu rôl o amgylch y maes hwn.

1.5 O ran y mater o secondiadau staff y Cynulliad i sefydliadau ym Mrwsel, roedd nifer o staff wedi cychwyn swyddi stagiaire ym Mrwsel. Byddai rhaglen dreigl o sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff ar faterion Ewropeaidd yn asio gyda strategaeth y Cynulliad ar gyfer annog secondiadau.

1.6 Byddai gan y Pwyllgor gyfle i ystyried Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd yn ei gyfarfod nesaf gan nad oedd ar gael i'r cyhoedd eto. Dywedodd Catherine Eva mai'r prif faterion ar y rhaglen fyddai ehangu, rheolaeth, yr agenda lles a chymdeithasol, yr amgylchedd a symudiad rhydd pobl. Dywedodd Jos Gallacher bod y WEC wedi derbyn copi o ddrafft diweddaraf y rhaglen waith a byddai'n paratoi dadansoddiad o fewn y pythefnos nesaf. Byddai hwn yn nodi meysydd ble byddai'r WEC yn lobïo ar ran ei aelodau.

1.7 Roedd yr Aelodau yn meddwl tybed a fyddai ehangu yn arwain at ailstrwythuro mwy radical na welwyd hyd yma, megis cryfhau'r Senedd Ewropeaidd. Dywedodd Des Clifford y gallai'r CoR ddod yn ail Siamber y Senedd ond yn ôl araith yr oedd y Prif Weinidog wedi ei rhoi i Gyfnewidfa Stoc Gwlad Pwyl, barn y DU oedd na fyddai hyn o anghenraid yn briodol, a'i bod yn well cael cysylltiadau agosach gyda seneddau cenedlaethol.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Rôl y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn y dyfodol**

**Papurau:** EUR-01-01(p.2)

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon a osodwyd gerbron o ganlyniad i bryderon yr aelodau am amcan a rôl y Pwyllgor. Roedd y Swyddogion wedi cynhyrchu papur a oedd yn nodi'r materion y byddai'r Pwyllgor yn gallu eu datblygu o fewn ei gylch gorchwyl presennol ac roedd hefyd yn holi a ddylid ehangu'r cylch gorchwyl er mwyn ymgorffori cyfrifoldebau yr Uned Cysylltiadau Rhyngwladol o fewn y Cynulliad a fyddai'n ymuno â'r Is-adran Materion Ewropeaidd o 1 Ebrill er mwyn ffurfio Is-adran newydd.

2.2 Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau mewn trafodaeth:

* Roedd archwilio deddfwriaeth yr UE yn dasg aruthrol. Archwilir 10,000 o ddogfennau yr UE yn San Steffan bob blwyddyn ac nid oedd gan lawer o'r rhain ddimensiwn Cymreig penodol yn perthyn iddynt. Ni fyddai'n gwneud synnwyr i'r pwyllgor ddefnyddio'u hadnoddau i ddyblygu'r gwaith hwn. Cafwyd nifer o anawsterau ymarferol yn Senedd yr Alban wrth geisio archwilio deddfwriaeth yr UE. Roedd swyddogion yn ymdrin â'r gwaith o olrhain a hidlo deddfwriaeth yr UE a datblygiadau eraill ac roedd y Cynulliad yn derbyn swm sylweddol o wybodaeth ar lefel swyddogol am ddatblygiadau yn Ewrop. Fodd bynnag, gallai'r pwyllgor ystyried bod angen am fecanwaith gwleidyddol ffurfiol yn ogystal â rhwydwaith y swyddogion. Awgrymwyd y gallai'r pwyllgor fod â rôl wrth sicrhau bod mecanweithiau archwilio'r Cynulliad yn gweithredu'n llwyddiannus.

* Teimlwyd na allai'r pwyllgor archwilio gweithredoedd Cabinet y Cynulliad o ran Ewrop yn effeithiol tra roedd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn cael ei gadeirio gan Brif Weinidog Cymru.

* Awgrymwyd y gallai fod rôl i'r Pwyllgor wrth edrych ar ddimensiwn Ewropeaidd materion trawsbynciol megis datblygiad cynaliadwy ac eithrio cymdeithasol. Gellir rhoi adborth ar y trafodaethau i'r pwyllgorau pwnc a'u cydlynu â chyfarfodydd llawn y Cynulliad.

* Roedd perygl y byddai rôl cydlynu'r Pwyllgor yn cael ei cholli. Y syniad gwreiddiol oedd cael pwyllgor trawsbynciol gyda chysylltiadau i'r pwyllgorau pwnc. Y bwriad oedd cael cefnogwr o bob pwyllgor pwnc ar y Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Gan nad oedd pob pwyllgor pwnc yn cael ei gynrychioli ar hyn o bryd, roedd angen archwilio dulliau eraill er mwyn sicrhau bod y pwyllgorau pwnc yn ystyried materion Ewrpeaidd yn eu gwaith. Un opsiwn oedd gofyn i bwyllgorau pwnc gynnwys eitemau rheolaidd ar yr agenda ar faterion/deddfwriaeth Ewropeaidd yn eu blaen-raglen waith. Fodd bynnag roedd amheuon ynglŷn ag oedd hyn yn ymarferol mewn gwirionedd, o gofio am y pwysau ar amser pwyllgorau pwnc. Awgrymwyd hefyd y gallai newyddlen reolaidd gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth Aelodau'r Cynulliad ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion Ewropeaidd.

* Roedd angen datblygu a chynnal momentwm i waith y Pwyllgor drwy roi rôl mwy sylweddol a rhagweithiol iddo. Teimlai rhai o'r aelodau bod angen i'r pwyllgor gynnal cyfarfodydd ychwanegol er mwyn cynnal y momentwm. Teimlai aelodau eraill bod gofyn gwneud rôl y Pwyllgor yn gliriach cyn cyfarfod yn amlach. Teimlai aelodau eraill na fyddai cyfarfodydd ychwanegol yn ymarferol o gofio nifer y gwahoddedigion rheolaidd ac y byddai sefydlu grwpiau o adroddwyr yn opsiwn mwy ymarferol.

* Golygai'r swm o ddeunuydd a oedd yn tarddu o Frwsel ei bod yn hanfodol blaenoriathau'r llwyth gwaith fel nad oedd yn cael ei or-lethu. Roedd angen i'r Pwyllgor roi blaenoriaethau a chyfarwyddiadau clir i'r swyddogion am y materion yr oedd am eu hystyried ac ymdrin â hwy.

* Nid oedd y trefniadau cyfarfod presennol yn galluogi i ASE fod yn bresennol mewn cyfarfodydd. Roedd eu mewnbwn wrth godi ymwybyddiaeth o'r Pwyllgor a rhoi mewnwelediad i faterion a godwyd yn hanfodol. Dydd Gwener oedd yr unig ddiwrnod ble byddai ASE yn debygol o fod ar gael ond roedd hyn yn gwrthdaro â dyddiau etholaeth Aelodau'r Cynulliad a chyfarfodydd pwyllgorau rhanbarthol. Byddai angen caniatâd y pwyllgor Busnes er mwyn symud y cyfarfodydd i ddydd Gwener.

* Cafodd creu Is-adran newydd a fyddai'n cwmpasu Materion Ewropeaidd a'r Uned Cysylltiadau Rhyngwladol ei groesawu. Byddai tri aelod ychwanegol o staff yn ymuno â'r tîm Rhyngwladol. Y gobaith oedd datblygu cysylltiadau gydag gwledydd eraill a oedd yn ymgesio i fod yn aelodau o'r UE.

2.3 Mewn ymateb i honiadau'r aelodau bod materion yn cael eu colli gan nad oedd gwybodaeth arnynt ar gael, gofynnodd y Cadeirydd i aelodau roi esiamplau iddo o feysydd lle roedd hyn wedi digwydd fel y gellid ymchwilio iddynt. Os oes sail i'r honiad hwn, gallai olygu bod angen newid i'r system a oedd yn cael ei defnyddio. Gofynnodd i'r swyddogion gynhyrchu papur arall yn ymchwilio i'r cynigion a wnaed a'i ddosbarthu i'r aelodau ymhell o flaen llaw cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Ehangu'r Undeb Ewropeaidd**

**Cyflwyniad: Jos Gallacher, Canolfan Ewropeaidd Cymru**

**Papur:** EUR-01-01(p.3)

3.1 Gwahoddwyd Jos Gallacher gan y Cadeirydd i amlinellu'r papur a gynhyrchwyd gan y WEC ar ehangu'r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd Jos bod y papur yn cynrychioli strategaeth ddrafft yr oedd y WEC yn ymgynghori arni ar hyn o bryd. Byddai'r broses ymgynghori yn dod i ben ganol mis Chwefror a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i fwrdd y WEC ar ddiwedd mis Chwefror. Ystyriai bod yr ymarfer hwn yn llawer mwy nag ymgynghoriad. Byddai'n cyflwyno'r ddogfen i aelodau'r WEC ac yn ystyried barn y bartneriaeth. Roedd yn rhaid iddi ddod yn strategaeth i Gymru a'r gobaith yw y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi arweinyddiaeth wleidyddol iddo.

3.2 Roedd ehangu ar flaen agenda yr UE ar hyn o bryd. Roedd gofyn i Gymru ymateb yn sydyn ac mewn ffordd gydlynus, o gofio bod rhai strategwyr yn rhagweld y byddai deg o wledydd yn ymuno â'r UE rhwng 2004 a 2006, yn hytrach na'r chwe gwlad a ddisgwylir ar hyn o bryd. Byddai hyn yn trawsnewid daearyddiaeth yr UE yn llwyr. Roedd y posibiliadau o golli swyddi i Ddwyrain Ewrop a cholli arian strwythurol yn rhai gwirioneddol. Roedd gofyn yn ogystal i wneud penderfyniadau ar y cyfleoedd a fyddai'n codi. Y cyfle allweddol fyddai'r cyfle economaidd gan y byddai'r gwledydd hyn yn rhannau deinamig o'r economi Ewropeaidd a fyddai'n arwain at gysylltiadau masnachu da yn y dyfodol. Roedd hefyd y posibilrwydd o gydweithio â hwy ar brojectau a ariennir gan Ewrop.

3.3 Roedd papur y WEC wedi nodi pedwar amcan allweddol. O'r rhain, roedd creu fframwaith Tîm Cymru cynaliadwy ar gyfer cyflwyno yn hynod o bwysig gan bod y WEC yn ceisio cyflawni synergedd ohono. Byddai adeiladu perthnasau megis gefeillio trefi a chysylltiadau diwylliannol yn cynorthwyo wrth ddatblygu dealltwriaeth mas critigol o Gymru a byddai'r ymagwedd bartneriaeth yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn. Roedd naw mater allweddol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Roedd yr WEC angen gwybod a oedd wedi nodi'r amcanion a'r materion cywir i'w cyflawni.

3.4 O ran mater allweddol rhif pump, sef targedu rhanbarthau a gwledydd priodol, roedd cytundeb cyffredinol hyd yma ar y strategaeth i'w mabwysiadu a'r meini prawf i feirniadu pa ranbarthau i ganolbwyntio sylw arnynt. Roedd tair lefel yn y broses targedu:

* strategol – yn cynnwys bob partner ac yn cynhyrchu synergeddau;

* sectoraidd – yn cynnwys cydweithrediad o amgylch sector diwydiannol, er enghraifft; a

* manteisgar – nodi cysylltiadau da i'w datblygu.

Roedd y papur yn amlinellu strategaeth a rhanbarthau posibl i'w targedu ar gyfer ymagwedd Cymru gyfan ond gallai'r ddogfen gael ei newid yn llwyr o ganlyniad i'r ymatebion ymgynghori. Roedd yn manylu ar y camau gweithredu i'w cymryd a'r dangosyddion perfformiad cychwynnol ond roedd angen mwy o waith ar y cynllun gweithredu manwl. Pe byddai'r Cynulliad yn ceisio targedu rhanbarth penodol, byddai cyrff eraill yn dilyn ac felly roedd y bartneriaeth yn edrych at y Cynulliad i ddarparu arweiniad.

3.5 Croesawyd y papur gan yr Aelodau a chodwyd y pwyntiau canlynol:

* cytunwyd bod angen ymagwedd mwy rhagweithiol, systematig tuag at ddatblygu perthnasau gyda rhanbarthau eraill, ymagwedd tebyg i'r un a fabwysiadwyd gan Weriniaeth Iwerddon a oedd yn ymwneud yn gadarnhaol â rhanbarthau eraill ac yn cymryd mantais o gyfleoedd a ddeuai i'r amlwg;

* Roedd rhanbarthau eraill yn y DU yn hael iawn wrth roi amser a chymorth i wledydd oedd yn ymgeisio ac roedd hon yn agwedd bwysig iawn i'w hystyried o ran strategaeth datblygu economaidd. Roedd rhai sefydliadau Cymreig megis Menter Caerdydd a'r Fro a Business in Focus eisoes yn weithredol iawn yn y maes hwn ac roeddynt yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg cefnogaeth ymddangosiadol oedd yng Nghymru i'w gwaith. Gallai'r WEC greu cyfleoedd ond roedd yn rhaid i'r Cynulliad annog cyrff fel Awdurdod Datblygu Cymru a'r prifysgolion i gymryd rhan;

* Byddai'n bosibl defnyddio cysylltiadau na fanteiswyd arnynt o'r gorffennol megis y cysylltiadau cryf iawn gyda Gwlad Pwyl a ddatblygodd o ganlyniad i'r diwydiannau glo a dur. Roedd gan nifer o wledydd yn Nwyrain Ewrop economïau yn seiliedig ar wybodaeth ac ni ddylid tanbrisio hyn;

* Roedd gan awdurdodau lleol gysylltiadau a hir sefydlwyd drwy gyfrwng eu gweithgareddau gefeillio a gellid defnyddio'r rhain. Gallent sicrhau bod cwmnïau yn derbyn gwybodaeth o ran cael mynediad i gefnogaeth a chymorth i'w ddarparu dramor;

* Roedd gan Gymru brofiad helaeth mewn datblygiad cymunedol ac arbenigedd fel yr hyn a ddatblygwyd gan y Bwrdd Datblygu Cymru Wledig gynt a gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo rhanbarthau eraill. Roedd yn rhaid canolbwyntio'r sylw ar y cydweithio rhwng asiantaethau a chyrff gwahanol yng Nghymru er mwyn rhannu profiad a datblygu materion, er y dylai projectau unigol nodi'r partneriaid gorau.

3.6 Nododd Rose D'Sa ei bod yn bwysig ystyried perspecif y sector preifat ar y strategaeth arfaethedig. Er gwaetha'r holl resymau synergedd ac o ystyried y defnydd helaeth o'r Saesneg, byddai'r sector yn gweld mai cyfran fechan iawn o gwmnïau a oedd yn cynnig yn llwyddiannus am waith mewn gwledydd a oedd yn ymgeisio. Roedd angen cynllun penodol ar gyfer y sector busnes yng Nghymru er mwyn datblygu strategaeth a chynorthwyo cwmnïau i gael mynediad at gyfleoedd.

3.7 Teimlai Richard Essex mai'r bwlch allweddol yn y strategaeth hyd yma oedd diffyg arweiniad yng Nghymru i'w datblygu. Roedd cystadleuaeth gref gan aelod-wladwriaethau eraill ac felly dylid gwneud y mwyaf o'r arbenigedd sydd gennym eisoes ar y cyfle cyntaf. Roedd Cymru eisoes yn araf wrth ymdrin â'r posibiliadau oedd ar gael, o ran camau gweithredu ac arian i ddatblygu projectau. Roedd rhwydwaith ehangu embryonig yn bodoli eisoes yng Nhymru a gallai hwn gynorthwyo'r Cynulliad. Yn ogystal, roedd yr Uned Gefeillio yn y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn awyddus i gynorthwyo Cymru i ddatblygu partneriaethau cyhoeddus/preifat.

3.8 Ystyriai'r Cadeirydd bod yr agwedd wleidyddol yn hanfodol bwysig ac roedd yn rhaid i'r Cynlluniad arwain y blaen. Ni fyddai unrhyw beth y byddai'r Cynulliad yn ei wneud ar ffurf partneriaethau gwleidyddol yn eithrio'r posibilrwydd o brojectau unigol yn cael eu datblygu gyda phartneriaid eraill. Roedd y mater o wahaniaethau costau cyflog a allai arwain at golli swyddi yng Nghymru yn bodoli heb yr ehangu hyd yn oed ac roedd yn rhaid ymdrin â hyn. Cynigiodd bod y Cynulliad yn dadlau am ehangu mewn cyfarfod llawn a bod y strategaeth yn cael ei datblygu cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Siarter yr EU ar Hawliau Sylfaenol**

**Papur:** EUR-01-01(p.4)

4.1 Dywedodd Mike Harper o Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus y Cynulliad bod i'r Siarter Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol ei gwreiddiau yn y Cyngor Ewropeaidd yn Cologne yn 1989. Roedd y datblygiad wedi'i ysgogi gan y ffaith nad oedd yr UE yn llofnodwr i'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, er bod yr aelod-wladwriaethau yn llofnodwyr; teimlwyd bod angen ymgorffori hawliau dynol i gytundebau'r Undeb yn ogystal. Fodd bynnag, roedd y Siarter yn mynd gam ymhellach na'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn nifer o ffyrdd pwysig – yn arbennig o ran hawliau yn y gweithle. Nid oedd y Siarter yn rhwymo'r elod-wladwriaethau yn gyfreithiol. Nid oedd yn ategu unrhyw beth at y ddeddfwriaeth bresennol ac felly roedd yn anodd ar hyn o bryd rhagweld sut effaith byddai hyn yn ei gael ar unigolion yng Nghymru.

4.2 Dywedodd Rose D'Sa bod y Siarter wedi deillio o ganlyniad i ddadl am gymwyseddau amrywiaeth o grwpiau o fewn yr UE a'u hymgyrch i gael dogfen ysgrifenedig a fyddai'n cwmpasu pob agwedd ar ddeddfwriaeth hawliau dynol o fewn corff cyfraith yr UE. Roedd rhagor o fuddion i hawliau dynol yn deillio, er enghraifft, o'r Siarter Ewropeaidd ar Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol ond roedd yn ddefnyddiol cael yr hawliau wedi eu casglu ynghyd mewn un ddogfen.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Fforwm Ewropeaidd Cymru**

**Cyflwyniad: Syr John Gray, Cadeirydd, a Stephen Thomas, Cyfarwyddwr, Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol**

**Papur:** EUR-01-01(p.5)

5.1 O gofio arddull llywodraethu newydd y Cynulliad, dywedodd Syr John Gray y gallai Fforwm Ewropeaidd Cymru gynorthwyo i ddatblygu deialog arbennig o bwysig ar Faterion Ewropeaidd ac arddangos awydd y Cynulliad i hybu cynhwysiant. Awgrymodd Stephen Thomas ffyrdd y gellid mireinio fformat bresennol y Fforwm:

- Bu'r Fforwm yn hynod o effeithiol hyd yma yn dosbarthu gwybodaeth fanwl. Fodd bynnag, ni fu'n effeithiol o ran y broses o gyfnewid gwybodaeth. Byddai newidiadau yn y drefn, megis caniatáu cyrff allanol i fwydo i'r agenda neu geisio cyfraniadau gan y rhai hynny a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yng Nghymru ac Ewrop, yn adlewyrchu'r cysylltiadau a oedd yn bodoli eisoes. Byddai'n ddefnyddiol darganfod ffyrdd i gynnwys y sector preifat yn y broses hon;

  * gallai gostwng y nifer o bobl a wahoddir i gyfarfodydd gynyddu effeithiolrwydd gan y gallai'r rhai hynny a fynychodd gyfarfodydd blaenorol fod wedi eu denu gan y siaradwyr proffil uchel yn hytrach na bod yn barod i gyfrannu i'r trafodaethau eu hunain. Byddai hyn yn caniatáu i'r Fforwm weithredu fel 'cyfrwng cronni syniadau' a mecanwaith ar gyfer trafod;

*Byddai cyfarfod y tu allan i Dde Cymru yn dangos mwy o awydd i gyflawni cynhwysiant;

*Byddai gwneud nodau'r Fforwm yn gliriach yn cynyddu effeithiolrwydd hefyd. Byddai'n dangos i'r sawl sy'n mynychu eu bod yn chwarae rôl wrth ffurfio consensws ar faterion oedd yn ymwneud ag Ewrop yn cynyddu eu hawydd i fynychu.

5.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu barn, a gan nad oedd ond dau gyfarfod o'r Fforwm wedi bod hyd yma, efallai ei bod ychydig yn gynnar dod i gasgliadau ohonynt. Ystyriai aelodau ei bod yn bwysig i'r sector preifat gymryd rhan, o bosibl drwy gynnwys grwpiau ieuenctid a sefydliadau llawr gwlad a chyflwyno delwedd gadarnhaol o Ewrop iddynt. Roedd pwysigrwydd y rhai a siaradodd eisoes yn y Fforymau a gynhaliwyd hyd yma wedi tynnu sylw cynulleidfa fawr ond ni wnaed defnydd effeithiol o'u presenoldeb. Roedd cynnwys y gynulleidfa yn fater allweddol.

5.3 Dywedodd Hugh Rawlings bod y sylwadau a wnaed gan bob plaid yn adlewyrchu'r broblem a wynebai trefnwyr y Fforwm. Hyd yma roedd wedi ceisio bod yn fecanwaith a oedd yn hysbysu yn hytrach na 'chyfrwng cronni syniadau'. Roedd rhaid penderfynu a fyddai'n ddigwyddiad ar raddfa fychan rhwng pobl oedd yn rhannu'r un agenda ac a oedd angen siarad â'u gilydd (y model cronni syniadau) neu a oedd am barhau i fod yn fwy gyda'r bwriad pennaf o hysbysu pobl am ddatblygiadau yn Ewrop ac arddangos ymagwedd Cymru at Ewrop. Cytunodd yr aelodau bod rhaid cyflawni'r ddwy swyddogaeth ond roedd angen ystyried yr hyn yr oedd angen ei gyflawni ar hyn o bryd. Efallai mai'r ymagwedd gywir fyddai rhaglen dreigl o seminarau ar hyd a lled Cymru yn hysbysu pobl am yr UE.

5.4 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n synhwyrol cymysgu yr ymagweddau tuag at gyfarfodydd gwahanol, gyda siaradwyr proffil uchel yn cymryd rhan mewn rhai cyfarfodydd er mwyn denu mwy o gynulleidfaoedd, a chyfarfodydd llai yn ymgynnull i drafod pynciau penodol. Gofynnodd i'r swyddogion baratoi papur ar y posibiliadau ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllor.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

**Papur:** EUR-02-00(min) ac EUR-03-00(min)

6.1 Cytunwyd ar gofnodion y ddau gyfarfod blaenorol.

6.2 Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i gynnig pynciau i'w trafod ar gyfer cyfarfod nesaf cynrychiolwyr y Pwyllgor Ewropeaidd yn y DU a fyddai'n cael ei gynnal yn y dyfodol agos.

6.3 Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm.